## Prifysgol y Plant Gogledd Cymru
## Cytundeb Aelodaeth

**2022/23**

**Dyddiad crewyd y ddogfen:**

**Enw'r sefydliad: (rhowch yr enw)**

**Partïon dan sylw**

Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn bodoli rhwng Prifysgol y Plant Gogledd Cymru a(c) (rhowch enw'r ysgol / ysgol rithwir). Rheolir Prifysgol y Plant Gogledd Cymru gan Brifysgol Glyndŵr.

**Diben**

Nod y Cytundeb Lefel Gwasanaeth hwn yw amlinellu'r disgwyliadau ac ymrwymiad cytunedig rhwng Prifysgol y Plant Gogledd Cymru a'r Ysgol / Ysgol Rithwir a enwir uchod yn ystod yr Astudiaeth Beilot.

**Cyd-destun**

Mae Prifysgol y Plant yn annog a gwobrwyo pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgaredd gwirfoddoli ac allgyrsiol, yn eu hysgolion, cymuned, gartref ac ar-lein. Mae pobl ifanc yn ymuno â Phrifysgol y Plant drwy ysgolion aelodau a/ grwpiau cymunedol a adnabyddir hefyd fel Ysgolion Rhithwir. Mae pob unigolyn yn cael Pasport Addysgu (os prynir) a chyfrif ar-lein i Brifysgol y Plant Ar-lein.
Mae pobl ifanc yn cael eu gwobrwyo gyda chyfnodau o 30, 65 a 100 awr, hyd at 1000 o oriau ac yn cael tystysgrifau a gwahoddiadau blynyddol i seremoni Raddio .

**Cyfnod y cytundeb**

Bydd y cytundeb hwn yn dechrau ar ddyddiad y bydd copi wedi'i llofnodi o'r ddogfen hon yn dod i law'r Tîm Prosiect Prifysgol y Plant Gogledd Cymru a thaliad o'r ffioedd priodol wedi dod i law'r adran Cyfrifon Derbyniadwy Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, yn y cyfeiriad isod.

**Swyddogaethau a chyfrifoldebau**

**<u>Bydd PPWSFf yn darparu'r canlynol i'r Ysgol/Ysgol Rithwir:</u>**

**Cefnogaeth i ddatblygu**

- Arweiniad a chefnogaeth i roi Prifysgol y Plant ar waith yn eich lleoliad.

- Taflenni gwybodaeth, llythyrau a thempled ffurflenni ganiatâd ar gyfer eich lleoliad i'w diwygio a'u defnyddio i anfon at bobl ifanc a'u rhieni/ gofalwyr.
- Cefnogaeth drwy gofrestru disgyblion ar Brifysgol y Plant Ar-lein
- Diweddariadau a gwybodaeth gan Ymddiriedolaeth Genedlaethol Prifysgol y Plant.

**Prifysgol y Plant Ar-lein**

- Hyfforddiant Prifysgol y Plant Ar-lein
- Mewngofnod unigol i bob staff sydd ynghlwm
- Cymorth i ddilysu gweithgareddau dysgu/gwirfoddoli yn eich lleoliad (e.e. clybiau cinio a chlybiau ar ôl ysgol)

**Lansio**

- Darparu gwasanaeth a/neu sesiwn noson rieni i lansio cyn dechrau cyflwyno Prifysgol y Plant yn eich lleoliad.
- Arolygon i bobl ifanc eu cwblhau i ganiatáu'r Tîm Prifysgol y Plant i grynhoi Cyrchfannau Addysg posibl a gweithgareddau dymunol.

**Adnoddau**

- Danfon y Pasbortau Addysgu i'ch lleoliad am ddim.
- Pecyn adnoddau aelodaeth am ddim i storio Pasbort Addysgu gan gynnwys 6 gweithgaredd cod stamp a chyfarwyddiadau ar Brifysgol y Plant Ar-lein.
- Newyddlen gwyliau ysgol yn cael ei hanfon drwy gydol y flwyddyn academaidd, i'r Cydlynydd Prifysgol y Plant eu dosbarthu i bobl ifanc, cyn gwyliau'r ysgol.

**Dathliadau**

- Darparu hyd at 30 tystysgrif Prifysgol y Plant i bob unigolyn yn ystod eu cyfnod ym Mhrifysgol y Plant.
- Cefnogi a benthyg adnoddau i drefnu gwasanaeth/ digwyddiad ysgol ar gyfer tystysgrifau Efydd ac Arian.
- Gwahodd digwyddiad Graddio blynyddol a drefnir gan y Tîm Prifysgol y Plant Gogledd Cymru ar gyfer 2 aelod o staff a holl bobl ifanc sydd wedi cyrraedd y lefel Aur.
- Benthyg cap a gŵn graddio i bobl ifanc sydd yn mynychu'r digwyddiad Graddio.
- Cyfleoedd i gael perfformiad grŵp ysgol yn y digwyddiad Graddio os ar gael (e.e. corau, siaradwyr, dawnswyr).

**Marchnata a chyhoeddusrwydd**

- Defnyddio logos Prifysgol y Plant
- Arddangos deunyddiau ar fwrdd
- Posteri swyddogol Prifysgol y Plant Gogledd Cymru
- Adnoddau dwyieithog wedi'u creu gan Brifysgol y Plant Gogledd Cymru.
- Rhoi benthyg baner ddwyieithog.
- Cydnabod a hyrwyddo cyfranogiad yr ysgol ar wefan a chyfryngau cymdeithasol PPWSFf.
- Blaenoriaeth ar gyfer gweithgareddau estyn allan a drefnir gan Dîm Prosiect PPWSFf ym Mhrifysgol Glyndŵr. (lle bo'n briodol).

**Cyrchfannau Dysgu**

- Adnabod a recriwtio Cyrchfannau Addysgu o amgylch eich lleoliad i gefnogi eich plant ifanc.
- Cyfeirio at Gyrchfannau Dysgu lleol er mwyn datblygu partneriaethau a gweithgareddau i'w darparu yn yr ysgol.
- Cyfeirio at Gyrchfannau Addysgu a chyfleoedd hyfforddi cenedlaethol o'r partneriaethau a ddatblygwyd gan yr Ymddiriedaeth Prifysgol y Plant, Hyfforddiant Cefnogwyr Open Learn.

**Mae'r Partner, Ysgol neu Ysgol Rithiol yn cytuno i'r canlynol:**
**Gwerthoedd Craidd**

- yn cefnogi'r nodau ac amcanion Craidd Prifysgol y Plant fel y nodir yn Atodiad 1;
- cyflawni holl ofynion cyfreithiol a chydymffurfio â'r holl reoliadau perthnasol mewn perthynas â diogelwch covid, amddiffyn plant a diogelu.
- sicrhau bod darpariaeth gweithgaredd trydydd parti yn ddiogel i'ch pobl ifanc gael mynediad atynt. Rydym yn argymell eich bod yn gofyn i unrhyw Leoliad Addysgu yr ydych yn ymweld â hwy neu sy'n darparu gweithgareddau ar eiddo ysgol, am dystiolaeth o wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, polisi diogelu ac iechyd a diogelwch.
- defnyddio enw Prifysgol y Plant, logo, enw a hawliau eiddo deallusol eraill (gan gynnwys masnach gofrestredig) yn unol â'r Cytundeb hwn;
- i beidio â gwneud unrhyw beth sydd wedi neu a all yn rhesymol ddisgwyl gael effaith niweidiol ar Fodelau Prifysgol y Plant, enw da Ymddiriedolaeth y Brifysgol, enw da Prifysgol y Plant Gogledd Cymru neu enw da Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, sydd yn dod, neu a ellir disgwyl yn rhesymol, ddod ag anfri i unrhyw un o'r partion uchod.
- peidio â gwneud unrhyw addasiadau i Fodel Prifysgol y Plant heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Ymddiriedolaeth Prifysgol y Plant;
- cyflwyno unrhyw welliannau neu addasiadau i Fodel Prifysgol y Plant pan wneir gais gan yr Ymddiriedolaeth Prifysgol y Plant neu Bartner Prifysgol y Plant; a
- Rhoi rhybudd ysgrifenedig un mis i dynnu allan o'r cynllun

**Gweinyddiaeth**
- Penodi Cydlynydd Prifysgol y Plant sydd â sgiliau TG a chyfathrebu da, a fydd yn gyfrifol am drefnu'r cynllun yn fewnol.
- Darparu amser priodol i Gydlynydd Prifysgol y Plant gwblhau hyfforddiant Prifysgol y Plant a dilysu gweithgareddau mewnol.
- Cwblhau y gwaith papur priodol erbyn y dyddiadau cau a roddir.
- Trefnu sesiynau priodol i Dîm Prifysgol y Plant Gogledd Cymru i ddarparu sesiynau hyfforddi i bobl ifanc ar ddechrau cyfnod yr aelodaeth.
- Cynnal cyfathrebiad cyson gyda'r tîm Prifysgol y Plant Gogledd Cymru
- Gwiriad data o sampl o broffiliau pobl ifanc i atal twyll.
- Delio â chodau twyllodrus a'r aelod Prifysgol y Plant perthnasol, os a phryd byddai gweithgaredd twyllodrus yn cael ei amlygu gan y Tîm Prifysgol y Plant Gogledd Cymru.

- Hwyluso sesiynau fideograffeg a ffotograffiaeth yn y lleoliad, gyda disgyblion a staff sydd wedi rhoi caniatâd pan fo hynny'n dderbyniol gan y naill ochr a'r llall.

**Casglu Data**
- Dosbarthu dogfennau caniatâd a gwybodaeth priodol i ddisgyblion a'u teuluoedd/gofalwyr ar gyfer caniatâd a chydsyniad.

- Casglu ffurflenni caniatâd rhieni wedi'u cwblhau a'u danfon ymlaen i Dîm Prosiect Prifysgol y Plant.
- Darparu data disgyblion i PPWSFf mewn fformat a gytunwyd, drwy'r platfform ar-lein.
- Hwyluso'r gwaith o gasglu unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen er mwyn i Dîm PPWSFf drefnu a chynnal digwyddiad ar ffurf seremoni raddio.
- Enwebu staff i fynychu'r seremoni raddio.

**Ymgysylltu**

- Hyrwyddo'r cynllun i ddisgyblion, rhieni/ gofalwyr a staff.
- Annog disgyblion i roi adborth, awgrymu Cyrchfannau Dysgu ychwanegol i gael eu dilysu a chymryd rhan weithredol yn y broses o ddatblygu Prifysgol y Plant (PP) yn eu hysgol/ ysgol rithwir a thu hwnt.
- Amlygu ymglymiad y Brifysgol Plant drwy'r ysgol/ gwefan ysgol rithwir, newyddlenni, gwasanaethau ayyb. Tynnu sylw at gyfranogiad yn yr Astudiaeth Beilot drwy wefan yr ysgol, cylchlythyrau, gwasanaethau ac ati.
- Dilysu gweithgareddau mewnol ar PP Ar-lein ar gyfer pobl ifanc o fewn 1 mis o ddechrau'r aelodaeth.
- Arddangos posteri perthnasol/gwybodaeth berthnasol.

**Costau**

Bydd cyflwyno Prifysgol y Plant Gogledd Cymru ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24 yn cael ei ddarparu am gost lai o £0 i gyflenwi'r misoedd o 04 Medi o 29 Chwefror 2024.
Bydd ysgolion ac Ysgolion Rhithwir yn talu ffi aelodaeth a fydd yn cyflenwi gwaith gweinyddol, argraffu, postio a chostau graddio.
Codir ffi o £3.50 i bob eitem ar gyfer Pasbort Addysgu.

Bydd anfoneb yn cael ei hanfon drwy'r adran Cyfrifon Derbyniadwy ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam i'r unigolyn perthnasol, sydd wedi'i enwebu gan yr ysgol/ ysgol rhithwir. Bydd taliadau yn ddyledus 30 diwrnod ar ôl anfon yr anfoneb. Bydd methiant i dalu'r anfoneb yn achosi ffi weinyddol ychwanegol a chanslo'r gwasanaethau aelodaeth Prifysgol y Plant.

**Sicrhau ansawdd**

Dylid cyfeirio unrhyw bryderon ynghylch ansawdd y gwasanaeth at Reolwr Prosiect PP Gogledd Cymru yn y lle cyntaf, naill ai drwy lythyr neu drwy neges e-bost. Bydd ymchwiliad yn cael ei wneud i'r mater a bydd ateb yn cael ei ddarparu cyn pen 5 diwrnod gwaith. Os bydd y mater yn parhau heb ei ddatrys, bydd yn cael ei gyfeirio at Fwrdd Rhaglen PP Gogledd Cymru.

**Eiddo Deallusol**

Mae'r Ysgol Aelod y Cynllun Peilot Prifysgol y Plant yn cydnabod:

- nad oed ganddi'r hawl, teitl na budd yn y Model Prifysgol y Plant, y Nod Masnach, y Deunyddiau, Prifysgol y Plant Ar-lein nag unrhyw un o Hawliau Eiddo Deallusol Ymddiriedolaeth Prifysgol y Plant a/neu unrhyw ddiweddariadau, gwelliannau neu unrhyw newidiadau i'r rhain;
- mae'n rhaid cadw at y Canllaw Brandio;
- bydd yn stopio, ar unwaith, defnyddio'r Deunyddiau neu Ddeunyddiau Marchnata yn ôl cais gan Brifysgol y Plant Gogledd Cymru neu Ymddiriedolaeth Prifysgol y Plant i wneud neu ar derfyniad neu ddiwedd y Cytundeb hwn;
- ni fydd yn gwneud unrhyw beth a all effeithio'n niweidiol ar Fodel Prifysgol y Plant, y Nod Masnach, Deunyddiau, Prifysgol y Plant Ar-lein *a*/ neu unrhyw hawliau eiddo deallusol

eraill Ymddiriedolaeth Prifysgol y Plant neu hawl Ymddiriedolaeth Prifysgol y Plant neu deitl i'r rhain.

**Tynnu'n ôl**
Os bydd Ysgol neu Ysgol Rithwir yn penderfynu nad yw'n dymuno parhau i fod yn rhan o Beilot PP Gogledd Cymru, bydd rhaid iddynt roi rhybudd ysgrifenedig o 1 mis. Bydd cyfrifon PP Ar-lein a Chydlynydd PP a phob disgybl yn cael eu cau a bydd unrhyw dystysgrifau heb eu casglu yn cael eu hanfon drwy'r post. Ni fydd yr Ysgol/Ysgol Rithwir yn gallu defnyddio'r logos na'r nodau masnach ar unrhyw ddeunyddiau, na hyrwyddo na chynnal unrhyw weithgaredd fel gweithgaredd Prifysgol y Plant/Children's University™.

**Ymwadiad**
Fel rhan o'r broses dilysu ar Brifysgol y Plant Ar-lein, mae pob Cyrchfannau Addysgu yn cydnabod, bod materion sy'n ymwneud ag Iechyd a diogelwch, Atebolrwydd Cyhoeddus, Diogelu Data a UKGDPR a Diogelu yn parhau i fod yn gyfrifoldeb arnynt hwy, a bod disgwyl iddynt weithredu eu gofynion statudol yn y meysydd hyn. Mae diogelwch Covid yn rhan o hwn.
Nid yw Prifysgol y Plant Gogledd Cymru yn adolygu cofnodion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, Iechyd a Diogelwch, Diogelu nag unrhyw bolisiau statudol eraill. Ni fydd Prifysgol y Plant Gogledd Cymru yn derbyn cyfrifoldeb nac atebolrwydd am faterion sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch, Atebolrwydd Cyhoeddus, Diogelu Data/ UKGDPR a Diogelu, sydd yn parhau yn unig gyfrifoldeb y darparwyr gweithgaredd naill ai'r Ysgol Prifysgol y Plant/ Ysgol Rithwir neu Leoliadau Addysgu. Cyfrifoldeb pob Rhiant neu Ofalwr yw sicrhau bod pob darpariaeth gweithgaredd, o'r Cyrchfannau Addysgu yn y gymuned, yn ddiogel i'w plant gael mynediad atynt.

**Cytundeb**
Rwyf i, ar ran yr Ysgol/Ysgol Rithwir a enwir isod yn cytuno i delerau'r cytundeb hwn gyda Phrifysgol y Plant Gogledd Cymru.
Printiwch eich enw:
Swydd:
Llofnod:
Dyddiad:

**Llofnod ar ran Prifysgol y Plant Gogledd Cymru**
Llofnod Natalie Edwards - Rheolwr Prosiect:
Llofnod:
Dyddiad:

Cwblhewch y cytundeb ac anfon copi i childrens.university@glyndwr.ac.uk

**<u>Defnydd Swyddfa yn Unig</u>**

Swm y Taliad:

Dyddiad derbyn y taliad gan eich lleoliad:

Nodyn atgoffa adnewyddu: